**Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

**Dyddiad**: Dydd Iau, 23 Mawrth 2000
**Amser**: 9.30 am
**Lleoliad**: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynylliad Cenedlaethol

**TEITL: STAFF AC ADNODDAU ERAILL: UNED POLISI CYDRADDOLDEB**

Cyflwynwyd y ddogfen ganlynol gan Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi mynegi pryder yngln â lefelau staffio yn yr Uned Polisi Cydraddoldeb. Byddaf yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor, ar 23 Mawrth, i roi fy ymateb i'r Pwyllgor ar yr hyn sydd wedi'i wneud hyd yma i gefnogi'r Uned Polisi Cydraddoldeb wrth weithio ar gyfle cyfartal yn y Cynulliad Cenedlaethol ac wrth sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan o brif ffrwd gwaith a swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae cyfle cyfartal yn un o werthoedd craidd y Cynulliad Cenedlaethol, ac yn bersonol yr wyf yn ymrwymedig i ddatblygu'r gwaith hwn, trwy gamau ymarferol yn hytrach na geiriau gwag.

Ers mis Ebrill 1999 mae nifer staff yr Uned Polisi Cydraddoldeb wedi codi'n sylweddol, o ddau aelod rhan amser i 9.5 cyfwerth amser llawn ar hyn o bryd. Mae rhai o'r aelodau staff hyn ar secondiad i gyflawni tasgau penodol yn y tymor byr. Amgaeaf nodyn sy'n nodi cynllun gweithredu'r Uned Polisi Cydraddoldeb ar gyfer y flwyddyn i ddod, ynghyd â'i blaenoriaethau a'i strwythur.

Yn amodol ar sylwadau'r Pwyllgor, yr wyf yn cynnig y dylid aros am ganlyniad yr archwiliad cydraddoldeb a'r cynllun gweithredu cysylltiedig y bydd y Pwyllgor yn ei gymeradwyo yn ystod y misoedd i ddod cyn ailasesu blaenoriaethau a phennu lefelau staffio priodol ar gyfer y tymor hwy.

Edrychaf ymlaen at drafod y materion hyn gyda'r Pwyllgor ar 23 Mawrth.

**JON SHORTRIDGE**

**CYNLLUN GWEITHREDU'R UNED POLISI CYDRADDOLDEB 2000-2001**

Bydd y cynllun gweithredu a nodir isod yn ddarostyngedig i'w ddiwygio yn ddibynnol ar flaenoriaethau a nodir o ganlyniad i argymhellion yr archwiliad cydraddoldeb.

## 1. AMCANION

I symud ymlaen â rhwymedigaethau'r Cynulliad mewn dull cyson a chydlynol, bydd yr Uned Polisi Cydraddoldeb o fewn Is-adran PEP yn gwneud y canlynol:

i. darparu adnodd canolog ar gyfer gweddill y Swyddfa, i roi cyngor a chyfarwyddyd ar sicrhau bod cyfle cyfartal wedi'i gynnwys mewn meysydd polisi;
i. sicrhau ei bod yn gwybod am ddeddfwriaeth a mentrau ansawdd cenedlaethol eraill er mwyn bwydo isadrannau polisi pan fo gan ddeddfwriaeth y potensial i effeithio ar eu meysydd cyfrifoldeb, er enghraifft Deddf Hawliau Dynol, Mesur Mewnfudo a Noddfa, Adroddiad MacPherson;
i. ystyried anghenion hyfforddi o fewn y Cynulliad a nodi ffyrdd o ddelio â'r anghenion hynny, a chodi ymwybyddiaeth am faterion cydraddoldeb;
i. hyrwyddo a monitro perfformiad cydraddoldeb Isadrannau i'w gynnwys yn yr adroddiad blynyddol.

*Bydd yr Uned Polisi Cydraddoldeb hefyd yn gweithio gydag Isadrannau i wneud y canlynol:*

i. datblygu a chydlynu meysydd polisi sy'n flaenoriaeth;
i. profi dulliau o roi cyfle cyfartal ar waith a rhannu gwybodaeth ar arferion gorau;
i. ystyried goblygiadau mentrau polisi'r DU i Gymru.

*Yn benodol, bydd yr Uned Polisi Cydraddoldeb yn:*

i. cwblhau'r archwiliad cydraddoldeb er mwyn pennu gwaelodlin gwybodaeth yngln â'r ystyriaeth a roddir ar hyn o bryd i gyfle cyfartal;
i. defnyddio canfyddiadau'r archwiliad i nodi meysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt;
i. gweithredu meysydd blaenoriaeth;
i. cysylltu â phwyllgorau pwnc eraill a grwpiau cysylltiedig i nodi targedau allweddol ym meysydd Hil, Anabledd a Rhyw;
i. ystyried trefniadau, a chytuno arnynt, i fonitro cynnydd cyfle cyfartal yn y Cynulliad;
i. adeiladu ar gysylltiadau da â'r CRE, EOC a Chomisiwn Hawliau'r Anabl;
i. adolygu trefniadau ar gyfer ymgynghori â chyrff cydraddoldeb y sector gwirfoddol yng Nghymru trwy ddatblygu dulliau ymgynghori effeithiol ar gyfer sianelu syniadau aelodau i'r Cynulliad.
i. edrych ar adroddiadau blynyddol cyrff cyhoeddus sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal, ac ymateb iddynt.

Rhagwelir hefyd y bydd yr Uned Polisi Cydraddoldeb yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi'r Pwyllgor Sefydlog ar Gyfle Cyfartal. Bydd hyn yn cynnwys rhoi cyngor a chyfarwyddyd ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb, ymateb i ohebiaeth ar faterion cydraddoldeb, cydlynu gofynion yr adroddiad blynyddol a chynorthwyo â gwaith archwilio/monitro'r Pwyllgor.

## 2. CAMAU

### 2.1 *Rhyw*

Yn sgil lansio Agenda Menywod y Llywodraeth. Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i sicrhau cynnydd ar faterion allweddol y bydd gofyn i ni yma yng Nghymru eu hystyried hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

i. gweithredu ar argymhellion Sioeau Teithiol Gwrando ar Fenywod; Bydd hyn yn cynnwys ymgyrch fawr yng Nghymru i nodi materion sy'n arbennig o berthnasol i fenywod yng Nghymru, llunio gwaelodlin a Chynllun Gweithredu o gamau ymarferol i'w cymryd i ddelio â'r materion anodwyd;
i. Gweithio gyda'r EOC ar raglen waith i wella gallu menywod i gael eu cyflogi ac i ennill cyflog;
i. cynlluniau i ostwng lefelau trais yn erbyn menywod;
i. ymchwil i ymagweddau a dyheadau merched ifanc yn eu harddegau;
i. ymgyrch i annog cyflogwyr i drefnu polisïau cyflogi sy'n gyfeillgar i'r teulu;
i. cysylltiadau â Swyddfa'r Cabinet, EOC a Grwpiau Menywod.

### 2.2 *Hil*

Mae Adroddiad diweddar MacPherson i'r Ymchwiliad i farwolaeth Stephen Lawrence yn un o nifer o faterion hil y bydd gofyn edrych arnynt.

Mae'r materion allweddol yn cynnwys:

i. Cynllun Gweithredu Adroddiad MacPherson - dadansoddi, datblygu a gweithredu; gan gynnwys ystyried goblygiadau'r Mesur Cysylltiadau Hiliol (Diwygiedig) yng Nghymru;
i. Mesur Mewnfudo a Noddfa - cydlynu buddiannau Cymru;
i. Cyfleoedd i Gymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig ryngweithio â Chynulliad Cenedlaethol Cymru - datblygu a hyrwyddo dulliau ar gyfer gwneud hynny;
i. Cefnogaeth weithredol strategol Fforwm Aml-asiantaeth;
i. Her Arweinyddiaeth CRE - datblygu cynllun gweithredu, a'i roi ar waith;
i. Cysylltiadau â'r Swyddfa Gartref/CRE a Chynghorau Cydraddoldeb Hiliol.

**2.3 *Anabledd***

Mae'r prif faterion a nodwyd yn cynnwys:

i. Codi ymwybyddiaeth yngln â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd - mae'r Ddeddf hon yn cael ei gweithredu ar hyn o bryd. Mae rhai achosion prawf wedi'u gweld eisoes, ar wahaniaethu ar sail anabledd mewn tribiwnlysoedd, a fydd o gymorth wrth egluro darpariaethau'r Ddeddf;
i. Monitro effaith gweithredu Rhan III y Ddeddf - a weithredwyd ym mis Hydref 1999. Mae hyn yn gofyn i bob darparwr gwasanaeth gymryd camau rhesymol i newid arferion, polisïau neu weithdrefnau, darparu cymhorthion neu wasanaethau atodol a goresgyn rhwystrau corfforol trwy ddarparu dull rhesymol arall;
i. Gweithredu Comisiwn Hawliau'r Anabl (DRC) - lleoli swyddfa yng Nghymru, derbyn adroddiadau blynyddol DRC;
i. Gweithredu ar Adroddiad y Tasglu Anabledd a fydd yn cael effaith ar draws holl Isadrannau'r Cynulliad.

**2.4 *Deddf Hawliau Dynol 1998 -***

Ar 18 Mai bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn cyhoeddi y bydd gweddill darpariaethau'r Ddeddf Hawliau Dynol yn cael eu gweithredu ar 2 Hydref 2000. O'r dyddiad hwnnw, bydd y sawl sy'n credu i awdurdodau cyhoeddus weithredu'n groes i'w hawliau dan y Confensiwn, yn gallu mynd â'r achos i lysoedd y DU yn hytrach na Strasbourg. Bydd pob awdurdod cyhoeddus, gan gynnwys y llysoedd, dan ddyletswydd statudol i weithredu yn unol â hawliau'r Confensiwn.

Yng Nghymru, mae rhwymedigaethau'r Cynulliad yn sgil cymal 107 Deddf Llywodraeth Cymru yn golygu bod gofyn i'r Cynulliad fod wedi dechrau gweithredu'n unol â hawliau'r Confensiwn ar 1 Gorffennaf y llynedd.

Mae paratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Hawliau Dynol yn dasg fawr sy'n cynnwys llawer o wahanol elfennau, yn benodol:

i. Adolygu Deddfwriaeth a gweithdrefnau;
i. Hyfforddi Staff a chodi ymwybyddiaeth;
i. Cynorthwyo 'awdurdodau cyhoeddus' eraill - trefnu cynhadledd fawr, cyhoeddi cyfarwyddyd.

Mae Bwrdd Project wedi'i sefydlu i ddatblygu'r gwaith hwn ac mae'r EPU yn cynnig cefnogaeth ysgrifenyddol i'r Bwrdd, ac yn gyfrifol am lunio'r adroddiad cynnydd 6 mis gofynnol.

**3. BLAENORIAETHAU**

**3.1** ***Strategaeth a Threfniadaeth***

Cwblhau archwiliad/meincnodi ymwybyddiaeth o gyfle cyfartal mewn polisi Adrannol erbyn diwedd Gorffennaf. Ystyried ymatebion i'r archwiliad a datblygu 'proffil aeddfedrwydd' i fwydo cynllun gweithredu manylach erbyn **Mawrth 2000.**

**3.2** ***Gweithredu***

3.2.1 Datblygu dulliau o gynorthwyo isadrannau polisi i gynnwys cyfle cyfartal yn eu gwaith prif ffrwd, ee rhestr wirio o gwestiynau, cerdyn wedi'i lamineiddio, llawlyfr cyfarwyddyd. Yn mynd rhagddo

3.2.2 Mewn partneriaeth ag Adrannau Noddi, edrych ar y dulliau mwyaf effeithiol o godi ymwybyddiaeth yngln â materion cyfle cyfartal ag Isadrannau Noddi a'u cefnogi wrth ddatblygu hynny. **Yn mynd rhagddo**

3.2.3 Rhoi cyngor a chyfarwyddyd ar arferion gorau cyfle cyfartal i Isadrannau Noddi yn ôl y gofyn. **Yn mynd rhagddo**

3.2.4 Cyflwyno rhaglen waith ddrafft, gan gynnwys meysydd blaenoriaeth a thargedau allweddol, i Bwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad erbyn **diwedd Mehefin 2000.**

3.2.5 Adrodd i Gabinet y Cynulliad ar y goblygiadau i'r Cynulliad yn sgil Adroddiad MacPherson a'r Cynllun Gweithredu o'r Ymchwiliad i farwolaeth Stephen Lawrence erbyn **Gorffennaf 2000**.

3.2.6 Ystyried y goblygiadau i'r Cynulliad yn sgil y newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth cydraddoldeb, yn arbennig y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw a'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol. **Yn mynd rhagddo**

3.2.7 Ystyried rôl y Cynulliad mewn perthynas ag adroddiad y Comisiwn ar Hawliau'r Anabl a'r Tasglu ar Hawliau'r Anabl. **Yn mynd rhagddo**

3.2.8 Ar y cyd ag Isadrannau perthnasol, edrych ar gyfle cyfartal mewn arferion recriwtio, dyrchafu a chynnydd gyrfaol erbyn **mis Mai 2000.**

3.2.9 Cysylltu ag Uned Menywod, Swyddfa'r Cabinet i ddysgu am y datblygiadau a'r mentrau diweddaraf mewn perthynas â menywod ar lefel genedlaethol ac ystyried y goblygiadau yng Nghymru. **Yn mynd rhagddo**

3.2.10 Datblygu Fforwm Ymgynghorol y Lleiafrifoedd Ethnig ar y cyd â'r CRE. **Yn mynd rhagddo**

3.2.11 Cysylltu â'r Swyddfa Gartref a'r DfEE i ddysgu am y datblygiadau a'r mentrau diweddaraf ar lefel genedlaethol ac ystyried y goblygiadau yng Nghymru. **Yn mynd rhagddo**

3.2.12 Hyrwyddo trefniadau'r Consortia Mewnfudo a Noddfa ar lefel strategol erbyn **mis Mawrth 2000** a chynorthwyo wedi hynny wrth weithredu'r Ddeddf Mewnfudo a Noddfa.

3.2.13 Datblygu cynllun gweithredu a'i roi ar waith yng Nghymru yn sgil y Ddeddf Hawliau Dynol erbyn **mis Hydref 2000**, gan gynnwys seminarau, adroddiadau hyfforddi a chynadleddau.

3.2.14 Datblygu modylau hyfforddiant cyfle cyfartal cyffredinol yn ôl y galw o fewn rhaglen hyfforddi'r Cynulliad i godi ymwybyddiaeth o gyfle cyfartal a materion hawliau dynol erbyn **mis Awst 2000.**

3.2.15 Datblygu pecyn sefydlu ar gyfer staff a fydd yn cynnwys gwybodaeth benodol yngln ag ymrwymiad y Cynulliad i gyfle cyfartal erbyn **mis Gorffennaf 2000.**

3.2.16 Llunio deunyddiau cefnogi, gan gynnwys llyfrgell cyfle cyfartal arbenigol, i gynnwys ffynhonnell gyfeirio ganolog a thudalennau Mewnrwyd. **Yn mynd rhagddo**

3.2.17 Cysylltu â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus i ddatblygu cynllun gweithredu newydd i hybu cyfle cyfartal mewn penodiadau cyhoeddus. **Yn mynd rhagddo**

**3.3 *Gwerthuso***

3.3.1 Nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwella casglu data i'w datgrynhoi erbyn **mis Medi 2000.**

3.3.2 Nodi gofynion casglu data penodol yn ymwneud â thargedau allweddol erbyn **mis Medi 2000.**

3.3.3 Llunio adroddiad blynyddol ar gyfer y pwyllgor Sefydlog ar Gyfle Cyfartal yn ymwneud â chynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu erbyn **mis Mehefin 2000.**

**Atodiad A**

***Staff a benodwyd a chyfrifoldebau penodol / Rôl y rhai ar secondiad a'u cyfrifoldebau penodol***

***Uned Polisi Cydraddoldeb***

**Willie, Mr Charles - G7 (Rhan Amser)**

**Mohammed, Miss Ruksana - AA**

Cyngor polisi ar hybu cyfle cyfartal.

Llunio cynllun gweithredu cyfle cyfartal y Cynulliad a'r adroddiad blynyddol ar gynnydd wrth hybu cyfle cyfartal.

Cefnogi'r Pwyllgor Sefydlog ar Gyfle Cyfartal.

**McCabe, Mrs Margaret - HEO (Rhan Amser)**

**Jones, Mrs Margaret - HEO (Ar secondiad hyd Fehefin 2000)**

**Swydd wag - EO**

Cyngor polisi a chyfarwyddyd ar hybu materion rhyw.

Gweithredu argymhellion yr Archwiliad Cydraddoldeb

**Thomas, Mrs Jill - HEO**

**Dhadda, Mrs Shaminder – EO (Rhan Amser)**

Cyngor polisi a chyfarwyddyd ar hybu materion hil a Hawliau Dynol hyd fis Mawrth 2000 a chydlynu deunydd cyfeirio.

**McKinlay, Mrs Jenny - HEO**

**Howell, Ms Jenny – EO (Rhan Amser)**

Cyngor polisi a chyfarwyddyd ar hybu materion anabledd gan gynnwys Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 ac Adroddiad y Tasglu ar Hawliau'r Anabl.

**Ahmed, Mr Eid - HEO (Ar secondiad hyd Fehefin 2000)**

Cyfarwyddyd a chyngor ar faterion Mewnfudo a Lloches a chysylltiadau â chyrff allanol.

**Stevens, Mr John HEO**

Project Arbennig - Cyngor polisi ar weithredu'r Ddeddf Hawliau Dynol (Mawrth - Hydref 2000)

**Atodiad B**

**UNED POLISI CYDRADDOLDEB - STRWYTHUR**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Pennaeth Is-adran Mike Harper | | | |
| | | | Pennaeth Cangen Charles Willie | | | |
| | **Project Arbennig: Mewnfudo a Noddfa** | **Anabledd** | **Hil** | **Archwiliad Rhyw /** | **Cydraddoldeb** | **Projectau Arbennig: Hawliau Dynol** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **HEOs** | Eid Ali Ahmed (Secondiad) | Jenny Mckinlay | Jill Thomas | Margaret Jones (Secondiad) | Margaret McCabe (p/t) | John Stevens |
| **EOs** | | Jenny Howells | Shaminder Dhadda | Swydd | wag | |
| **AA** | | | Ruksana Mohammed | | | |